CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL, LLANELIAN, 7.30 y.h. NOS LUN 1af MEDI 2025.

1. **CROESO**

Croesawyd y Cadeirydd Cynghorydd Glena Humphrey pawb i'r cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL**

Cynghorion Glena HUMPHREY, Gethin OWEN, Irwedd GRIFFITHS, Goronwy R. WILLIAMS, D. Gwyn JONES, Gwenda DAVIES, John EVANS, Hefin WILLIAMS, Bryn JONES, Cynghorydd y Sir - Ifor G. LLOYD a'r Clerc – Mel JONES.

3. **YMDDIHEURIADAU**

Cynghorydd Gwawr THOMAS

Cyn dechrau y cyfarfod daeth Mr Mark Blissitt o Aelwyd Uchaf. Ffordd Cil Llidiart, Betws yn Rhos i'r neuadd hefo ei ferch. Gofynodd i siarad hefo'r Cynghorion ac fe rhoddodd caniatad iddo. Roedd Mr Blissitt eisio trafod y rheswm fod Adran Cynllunio Sir Gonwy wedi gwrthod ei gais i adeiladu ty ar ei dir. Roedd Mr Blissitt eisio ateb gan y Cyngor Cymunedol be ddyliau wneud i'r cynllun i wnued yr adeilad yn llai gweladwy – fel gwrychoedd neu to gwellt. Fe eglurwyd i Mr Blissitt mae Adran Cynllunio Sir Gonwy oedd yr adran fedrith ateb ei ymholiad a dim y Cyngor Cymunedol a fedrith y Cyngor ddim trafod hyn hefo fo.
Dywedodd Mr Blissitt ei fod yn mynd i rhoid cais arall i adeiladu ty ar y tir ac fe eglurwyd iddo fedrith ddod i siarad hefo'r Cyngor Cymunedol pan oedd y cais ar yr Agenda.
Fe eglurwyd i Mr Blissitt fod ei gais cynllunio am ffyrdd ar ei dir ar yr Agenda and fe rhoddwyd y cyfle iddo siarad hefo'r Cynghorion ynglyn ar cais. Dywedodd Mr Blissitt for gwrych o gwmpas y ffordd ac roedd yn bwysig iddo gael y ffordd i deithio i'r adeiladau i edrych ar ol ei anifeiliaid. Fe ddywedodd y Cadeirydd fuasai ei sylwadau yn cael ei ystyried. Fe eglurwyd i Mr Blissitt ddyliau yrru E bost 'r Cadeirydd neu y Clerc i hysbysu

fyddai yn bwriadu dod i'r cyfarfod ac eisio trafod materion cynllunio hefo'r Cynghorion.

Rhoddodd Mr Blissitt ddiolch i'r Cynghorion am ei amser cyn gadael y neuadd.

4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Roedd dim dataganiad o ddiddordeb.

5. COFNODION

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 fed Gorffennaf 2025 (Cynnig – Cynghorydd Goronwy Williams ac eilwyd gan y Cynghorydd John Evans)

6. MATERION YN CODI

Roedd dim materion yn codi.

7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod ddod i ben 20fed Gorffennaf 2025.

Dod i ben 20fed Gorffennaf 2025

Cyfrif Cymunedol	= £3,399.76 (Dwyn Ymlaen)
Arian i Mewn	= DIM
Arian Allan	= £400.00 (Cyflog Clerc)
	= £193.94 (Cyflog y Clerc)
	= £62.38 (Aston Hughes- gwaith cyflog)
	= £5.00 (Costau Banc)

= £500.00 (Grant Mynwent Betws)

= £375.00 (Anfoneb Archwiliad Cymru)

CYFANSWM – £1,536.52

Cyfrif Cymunedol = £1,863.24 (Cludwyd Ymlaen)

Cyfrif Busnes = £4,071.02 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan = DIM
Arian i Mewn = DIM

Cyfrif Busnes = £4,088.37 (Cludwyd Ymlaen)

Cyfanswm **= £5,951.61(Cludwyd ymlaen)**

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod ddod i ben 20fed Awst 2025.

Dod i ben 20fed Awst 2025

Cyfrif Cymunedol = £1,863.24 (Dwyn Ymlaen)
Arian i Mewn = £6,000.00 (Praesept CCBC)

Arian Allan =£197.43 (HMRC – Cyflog y Clerc)

= £400.00 (Cyflog Clerc)

= £194.14 (Cyflog y Clerc)

= £5.00 (Costau Banc)

= £197.43 (HMRC – Cyflog y Clerc)

CYFANSWM – £994.00

Cyfrif Cymunedol = £6,869.24(Cludwyd Ymlaen)

Cyfrif Busnes = £4,088.37 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan = DIM

Arian i Mewn = DIM

Cyfrif Busnes = £4,088.37 (Cludwyd Ymlaen)

Cyfanswm **= £10,957.61 (Cludwyd ymlaen)**

Nododd yr aelodau y sefyllfa ariannol a'r adroddiad banc fel a restir uwchben.

Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Diweddariad gan y Clerc fod y grant am £500.00 wedi ei dalu i Mynwent Betws yn Rhos a fod ebost wedi ei dderbyn yn cadarnhau y taliad iddynt.

Roedd yr archeb am 30 batri i'r diffibrilwyr heb gael ei symud ymlaen gan Tomos Hughes. Fydd y gost yn cael ei yrru ymalen am awrdurdod i'w dalu.

Diweddariad gan y Clerc for llythyr wedi ei dderbyn gan Un Llais Cymru yn cynnwys manylion fod cyflog y Clerc wedi codi o 1/4/2025 hyd at 31/3/2026. Mae cyflog awr SCP17 wedi ei godi o £15.58 i £16.08. Roedd cyflog y Clerc wedi ei drafod yn adroddiad Archwiliad Cymru.
Roedd cytundeb gan y Cynghorion i godi y cyflog ac i'r Clerc ddiweddaru Aston Hughes. Roedd y Clerc ddim eisio gofyn am ad-daliad yn ol i 1/4/2025.

Roedd y Cynghorion yn bresennol ddim eisio gofyn am y taliad Cynghorion am 2025/2026. Fydd y ffurflenni ar gael i'w arwyddo yn y cyfarfod nesaf.

8. GOHEBIAETH

Derbynwyd

1. Lythyr gan Mr Medwyn Lewis ynglyn a cyflwr gwael Ffordd Plas Helyg, Llysfaen. Roedd Mr Lewis yn gofyn am gyfarfod. Roedd y Clerc wedi trafod y mater hefo Mr Lewis ac wedi egluro fod 'matrix' gan y Cyngor

Sir a bod rhestr o flaenoriaeth. Fydd dim pwrpas i gael cyfarfod. Y Clerc i ddiweddaru Mr Lewis.

2. Mrs Margaret Morris o Betws yn Rhos wedi cysylltu hefo'r Clerc ynglun a cyfamod ar dai yn ei stryd. Roedd y Clerc wedi siarad hefo'r Adran Gynllunio a cyfrilodeb perchennog y tai oedd cymeryd camau cyfreithiol a dim Cyngor y Sir nag y Cyngor Cymunedol. Roedd y Clerc wedi diweddaru Mrs Morris.
3. Mae Arolwg Troseddau Gwledig wedi ei rhoid ar y wefan fel ofynwyd gan y Cyngor Sir.

4. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc

Anfonwyd

1. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
2. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

9. GRANTIAU

Ceisiadau i'r Cyngor

Diweddariad gan y Clerc fod y grant am £500.00 wedi ei dalu i Mynwent Betws yn Rhos.

Mae cais am grant wedi ei dderbyn gan Mrs Ann Vaughan i dalu am dorri glaswellt yn Mynwent Trofarth. Roedd y taliad wedi ei rhoid yn y praesept am ei fod yn cael ei dalu bob blwyddyn. Roedd cytundeb gan y Cynghorion i dalu grant o £500.00.

Ceisiadau gan y Cyngor

Roedd y Clerc wedi derbyn E bost fod grant ar gael i rhedeg Canolfan Clyd. Yr ebost wedi cael ei yrru i Aloma Wheway sydd yn cyfrifol am Canolfan Glyd Betws yn Rhos.

Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

Fydd yn gofyn rhoid cais i mewn yn y dyfodol i atgyweiro cae chwarae Betws yn Rhos.

10. **CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer**

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52758 **Ymgeisydd: Gwynfor Jones**

Cynllun: Cwt amaethyddol newydd i gadw defaid ac wyn adeg wyna, ynghyd â lle i gadw lloi

Safle: Twnan Ucha Dolwen Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NN

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52738 **Ymgeisydd: Mr J. Rees**

Cynllun: Estyniad deulawr arfaethedig i ochr adeilad allanol sydd wedi cael ei drawsnewid yn flaenorol

Safle: Pant Idda Nentydd Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EE

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52713 **Ymgeisydd: Mrs A Wheway**

Cynllun: Disodli'r holl lifoleuadau ar y Lawnt Fowlio a'r Llecyn Gemau Amlddefnydd. Ar hyn o bryd mae'r goleuadau yn oleuadau sodiwm 1000 wat o amgylch y Lawnt Fowlio, mae un wedi methu ac un yn fflachio, felly credir y byddai'n fanteisiol disodli'r holl unedau gydag unedau LED watedd isel. Dim ond yr unedau ar ben y pyst presennol yr ydym yn cynnig eu newid. Cynhaliwyd arolwg o'r goleuadau gan "Tamlite", mae copïau ynghlwm.

Safle: Sports Pavilion Dolwen Road Betws Yn Rhos LL22 8AW

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52714 **Ymgeisydd: Mr Max Jones**

Cynllun: Gogledd: Cais ôl-weithredol i newid defnydd tir a lleoliad cysylltiedig cynwysyddion storio (Defnydd B8) ynghyd â gwaith tirlunio

Safle: Tir Yn Bryn Rodyn Dolwen Road Old Colwyn Colwyn Bay Conwy

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio.

Roedd gan y Cynghorion bryderion fod hwn yn gais arol weithredol l newid defnydd y tir a lleoliad cysylltedig cynwysyddion storio. Roedd dim esboniad pan roedd cais cynllunio heb gael ei wneud cyn dechrau y gwaith. Roedd bryderion fusasai traffig yn cynyddu ar ffordd sydd yn brysur yn barod.

Mae y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais am y rhesymau hyn.

Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52704 **Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt**

Cynllun: Gogledd: Lôn fferm i siediau amaethyddol a phorthwr gwair (Manylion Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw Amaethyddol)

Safle: Aelwyd Uchaf Peacful Mountain Farm Cil Llidart Road Betws yn Rhos Conwy LL22 8AG

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52687 **Ymgeisydd: Miss N Lutchman**

Cynllun: Cynnig dymchwel garej ac ystafell haul, adeiladu estyniad ar ochr y Gogledd a'r Dwyrain, adeiladu prif bortsh newydd, ffurfio ffenestri newydd ar ochr y Gogledd a'r Dwyrain a chau ffenestri/drws presennol y portsh i greu lle tân â simdde i roi stof goed.

Safle: Pren Gwyn Nentydd Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EF

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52771 **Ymgeisydd: Mr T Williams**

Cynllun: Ehangu'r wyneb caled wrth y fynedfa. Adeiladu lloches cae â chladin pren / sied offer / storfa gyda chynhwysydd dur diogel a charafan. Nodir dylai'r garafan gael ei ddefnyddio fel lloches cae yn unig ac nid ar gyfer gweithgarwch preswyl neu dros nos.

Safle: Coed Ty Brith Abergele Road Betws Yn Rhos LL22 8AE

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52628 **Ymgeisydd: Mr and Mrs P & W Arundale**

Cynllun: Addasu adeiladau allan presennol i ddarparu llety domestig ychwanegol sy'n ategol at fwynhad yr annedd

Safle: Celynnen Llanelian Conwy LL29 6AT

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52622 Ymgeisydd: Mr Sean McBride

Cynllun: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45158 (Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl o ran caniatâd cynllunio amlinellol 0/42343 (Datblygiad tir gyferbyn â Bryn Rodyn, (Ffordd Dolwen) Hen Golwyn ar gyfer tai preswyl (Caniatâd Cynllunio Amlinellol) (Cam 2) i ganiatáu ar gyfer y gwelliannau ôl-weithredol i'r cynllun a gymeradwywyd

Safle: Tir yn Ffordd Dolwen, Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 8UP

Wedi cael ei wrthod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52621 Ymgeisydd: Mr Sean McBride

Cynllun: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45161 (Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl o ran caniatâd cynllunio amlinellol 0/42351 (Datblygiad tir gyferbyn â Bryn Rodyn, (Ffordd Dolwen) Hen Golwyn ar gyfer tai preswyl (Caniatâd Cynllunio Amlinellol) (Cam 1) i ganiatáu ar gyfer gwelliannau i'r cynllun a gymeradwywyd

Safle: Land at Dolwen Road Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 8UP

Wedi cael ei wrthod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52591 **Ymgeisydd: Mr Nigel Williams**

Cynllun: Estyniadau to ar oleddf unllawr i annedd bresennol

Safle: Springhill Ffynhonnau Road Betws Yn Rhos LL22 8AB

Wedi cael ei gymeradwyo gan yr Adran Cynllunio

Cyfeirnod: 0/52584 **Ymgeisydd: Mr Max Jones**

Cynllun: Gogledd: Newid defnydd tir o gae amaethyddol i ardal ymarfer cwn (defnydd unigryw) ynghyd â gwaith cysylltiedig ar gyfer parcio a thirlunio

Safle: Tir ger Bryn Rodyn Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 8UU

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52538 **Ymgeisydd: Mrs Elmaira Watson**

Cynllun: Newid defnydd adeilad cerrig amaethyddol nad yw'n cael ei ddefnyddio ac ysgubor yn ogystal â sied storio ffrâm ddur i annedd teulu unigol

Safle: Tyn Y Wal Farm Pencraig Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT

Y cais wedi cael ei dynnu yn ol

11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Mae datganiad cyfrif yr archwiliad lleol wedi cael ei yrru i Archwiliad Cymru er ei gwybodaeth. Mae yn debygol fydd anfoneb yn cael ei dderbyn gan Archwiliad Cymru

12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Diweddaraid gan Cynghorydd Ifor Lloyd fod Adran Gynllunio Sir Gonwy yn mynd i edrych ar gais i adeiladu stad fawr o dai ar Lon Peulwys sydd yn debygol i gael effaith ar presylwyr ein cymuned fydd yn teithio ar Ffordd Llanelian i gylchfan Gwesty Marine.

Mae y gwaith wedi ei ddechrau i atgyweiro ffyrdd gwledig hefo £4.7 miliwn wedi ei glustnodi o'r cyllideb. Mae 'matrix' blaenoriaeth y gwaith in ei le.

13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

a. Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.

Mae y Clerc wedi derbyn amcangyfrif gan KOMPAN am yr offerau canlynol - pedwar twr hefo twnel a sleid a Springer lilies dwr. Y gost hefo ei gosod yw £30,524.61

Mae y Clerc wedi cysylltu a CVSC Conwy am grant. yn anffodus gan nad yw y Cae Chwarae ar les i'r Cyngor Cymunedol mae yn annodd cael grantiau ond mae CVSC yn mynd i wneud ymholiadau a diweddaru y Clerc.

Gan fod yr offerau yn cael ei gosod ar dir Cyngor Sir Gonwy mae Mr David Dudley -Arolygydd Cae Chwaraeon- wedi diweddaru fydd y gwaith yn cael ei monitro gan y Cyngor. Mae Mr Dudley yn mynd I gael amcngyfrif gan cwniau eraill a gyrru y gwybodaeth i'r Clerc. Mae Mr Dudley yn mynd i gysylltu hefo KOMPAN.

Mae yn bosibilrwydd fydd rhaid gofyn i'r Parc Solar am gymorth grant.

b. Diffibrilwyr.

Mae y diffibrilwyr mewn cyflwr da ac ar lein.

Mae y Clerc yn disgwyl i Tomos Hughes archebu 30 o fatris newydd yn barod i newid nhw yn y tri diffibrilwyr arall.

Mae y Clerc wedi cysylltu hefo Tomos Hughes ynglyn a siarad hefo cymunedau Llanelian a Betws yn Rhos yn fuan yn y nos a dim yn y prynhawn er mwyn cael mwy yn bresenol. Y Clerc yn disgwyl ateb gan Tomos Hughes.

c. **Yr Hwb**

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau/Meinciau Ffordd Abergele**

Mae Hilda Gibbs wedi plannu blodau yn potiau yn pentref Betws.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos/Llanelian**

Roedd Cynghorydd John Evans wedi diweddaru eisioes fod Pwyllgor Eglwys Betws yn Rhos yn edrych at atgyweiro adeilad tu allan i'r eglwys fel toiled.Fydd diweddariad ar gael pan fydd cynnydd yn y planniau. Mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi Pwyllgor yr Eglwys.

Ynglyn a toiledau Llanelian darllenodd y Clerc gynnwys llythyr gan Dylan Llyr Roberts, (Cyfreithiwr) Cwmni Howell Jones, Llanrwst. Ei gyngor oedd gael arolwg llawn ar yr adeilad a hefyd arolwg lleol am y draeniad a dwr a hefyd chwiliadau amgylcheddol.
Wedi trafod y cyngor roedd cytundeb fod dim rhaid cael y gwaith achos fod adeilad newydd y Neuadd Cymunedol drws nesaf i'r Cyflusterau wedi cael chwiliadau. Yn ychwanegol roedd adeilad y toiledau wedi cael ei atgyweiro gan y Cyngor Sir.

Y Clerc i ddiweddaru Mr Dylan Llyr Roberts gan obeithio fydd y les yn cael ei bwrw ymlaen.

Y Clerc wedi cael amcangyfrif gan Zurich. Fydd cost iswrant adeilad y toiledau yn £613.90 (fydd yn cynwys iswrant blynyddol y Cyngor) Pan fydd y les wedi ei gwbwlhau y Clerc i edrych am amcangyfrif arall i'w gymharu.

f. **Materion arall**

Ynglyn a'r mater gododd Cynghorydd Irwedd Griffiths ar y15fed Gorffennaf am dro cul ar y ffordd rhwng Nant y Cohl a Bryn Derwen mae y gwaith yn dal i ddisgwyl.

Coed Ty Brith, Ffordd Abergele, Betws yn Rhos. Cae yn cael ei ddefnyddio fel Parc Cwn a Tepees yn y safle. Mae yr Adran Gynllunio wedi derbyn cais cynllunio am y tir oedd wedi ei drafod yn y cyfarfod. (**Cyfeirnod 0/52771**)

Tir ger Nant Uchaf, Betws yn Rhos. Cae yn cael ei ddefnyddio i gadw peiriantau trwm. Mae yr Adran Gynllunio yn ymwybodol ac fydd diweddariad mewn amser.

Mae angen ail blannu y goeden mwnci yn ymyl Pafilwn Chwaraeon, Betws yn Rhos. Mae y goeden o ffordd darparu parcio ychwanegol. Mae AJC Contractors yn mynd i ail blannu y goeden. Mae Cynghorydd Ifor Lloyd yn foldlon cysylltu hefo AJC Contractors. Nid yw'r goeden wedi cael ei ail plannu hyd yn hyn

Cododd Cynghorydd Irwedd Griffiths broblemau hefo cerbydau yn parcio yn perygl ar y ffordd rhwng Y Felin, Dolwen a Pen y Bryn ar y ffordd am Bryn Elian. Y Clerc i yrru neges i ERF Sir Gonwy

Diweddariad gan Cynghorydd Gwyn Jones hefo pryderion ar ol damwain rhwng dwy van Bwrdd Dwr ar Ffordd Galch, Llanelian.Dangoswyd lun o'r ddamwain. Mae gofyn i'r Cyngor Sir assesu arwyddion yn y lleoliad ac awgrymiad fod arwydd Araf yn cael ei gosod cyn y trof lle mae mwy na un damwain wedi digwydd. Y Clerc i yrru neges i ERF Sir Gonwy

Diweddariad gan Cynghorydd Bryn Jones fod Tudur a Christy Roberts o 34, Glan y Fedw, Betws yn Rhos wedi gwneud rhodd o fainc i'r Cae Chwarae yn y pentref. Y Clerc i ysgrifennu llythyr o ddiolch iddynt.

14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Mae y cais praesept am £18,000 wedi cael ei gytuno gan y Cyngor Sir. £6,000 wedi ei dalu i'r cyfrif banc ar 15/4/25 ac fydd y ddau daliad arall yn mis Awst 2025 a mis Rhagfyr 2025.

15. **FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

Dim diweddariad ynglyn a cynllun tyrbines gwynt a parc solar ar Fynydd Llanelian. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais.

Mae cynllun fferm wynt Mona wedi cael ei gymeradwyo.

16. **Y GADLAS**

Dim awgrymiad am erthygl.

UNRHYW FATER ARALL

Diweddariad gan Cynghorydd Bryn Jones mae dyma y cyfarfod olaf iddo. Dywedodd ei fod yn ymddiswyddo fel Cynghorydd am ei fod wedi cael anhwysterau dod i'r cyfafordydd yn ddiweddar. Roedd Bryn wedi meddwl llawer am ei benderfyniad i ymddiswyddo.
Rhoddodd y Cadeirydd Glen Humphrey ddiolch mawr i Bryn ar rhan y Cyngor a'r Gymuned am ei wasanaeth dros sawl blynedd. Fydd y Cyngor yn methu Bryn. Rhoddwyd rownd o gymeradwyaeth i Bryn.

Gan nad oedd materion eraill fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.50 yh.

CADEIRYDD …….. Glena Humphrey

CLERC…… Mel Jones

DYDDIAD: 6ed Hydref 2025